



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

2019 – 2020

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ebrill 2020

CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 3
Uned Gwasanaethau Cymraeg	tudalen 4
Cwynion	tudalen 8
Sgiliau Cymraeg Staff	tudalen 11
Hyfforddiant	tudalen 14
Llenwi Swyddi Gwag	tudalen 14
Manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth	tudalen 14
Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio	tudalen 15

CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016. Mae modd ei weld yn llawn [yma](#).

Gweledigaeth

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ogystal â gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â gofynion Safonau'r Gymraeg, bwriad y Cyngor yw sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau yn unol â holl bolisïau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiol yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn trafod adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, a monitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. O 2020, bydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyngor hefyd yn craffu ar effeithiolrwydd gwasanaethau o ran cyflenwi gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dolenni cyswllt i Bolisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae ymrwymïadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfennau sefydliadol yr awdurdod gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol (Gwneud Gwahaniaeth) a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn ogystal â hyn, mae polisïau mewnol, megis polisïau Adnoddau Dynol, hefyd yn prif ffrydio materion y Gymraeg sy'n fwy effeithiol na pharatoi polisïau unigol i fynd i'r afael â materion y Gymraeg. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried anghenion ieithyddol eu defnyddwyr wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Rhoi Adroddiad

Dyma'r bedwaredd flwyddyn lawn o roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r adroddiad (ynghyd ag Atodiad 1), fydd yn cael eu cyhoeddi erbyn 30 Mehefin, yn bodloni Safonau 158 a 164 ac yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau;

- Safonau Gweithredu;
- Safonau Llundain Polisïau.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol, hynny yw:

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Gymraeg (Safon 151);
- nifer y staff a fynychodd y cyrsiau hyfforddi a restrir yn Safon 128 os cawson nhw eu cynnig yn Gymraeg (Safonau 152);
- canran cyfanswm y staff a fynychodd unrhyw gyrsiau a restrir yn Safon 128 (Safonau 152);
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categorio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol;
- nifer y cwynion y cafodd y Cyngor.

Yr Uned Gwasanaethau Gymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg o ystyried y risgiau sydd ynghlwm â pheidio â chydymffurfio â nhw ac hefyd oherwydd ei ymrwymiad i greu amgylchedd sy'n annog ei drigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor ac i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Gymraeg o'r cyswllt cyntaf.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Gymraeg gadarn sy'n cynnwys 17 o weithwyr. Mae'r Uned yn gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u cyfrifoldebau statudol o dan y Safonau;
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd;
- darparu tiwtor Gymraeg mewnol;
- nodi meysydd lle ma diffyg cydymffurfiaeth posibl;
- cofnodi cwynion cwsmeriaid;
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg;
- cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ac mewn cyfarfodydd eraill sy'n agored i Aelodau (e.e. pwyllgorau craffu);
- rhoi cymorth cyfieithu ar y pryd i bob maes gwasanaeth arall fel gwasanaethau cyfreithiol, adnoddau dynol;
- bod yn bresennol yng nghyfarfodydd Fforwm Iaith;
- cydweithio â sefydliadau Gymraeg yn y gymuned fel sy'n briodol;
- cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd allanol a bod yn brif gyswllt â Chomisiynydd y Gymraeg ac Adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru;
- Cymorth ar draws adrannau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned fel ymateb rhagweithiol i'r amgylchedd statudol newydd a'r math o waith y mae angen ei wneud i geisio cynorthwyo holl wasanaethau'r Cyngor i fodloni'r Safonau mewn modd mwy cost-effeithiol a chyson.

Mae Swyddog Cydymffurfio yn monitro cyflawniad y gwasanaethau ar draws y Cyngor ac yn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau hynny sy'n berthnasol iddyn nhw. O ganlyniad i hyn, mae'r rôl yn rhoi cyfle i'r Cyngor ddarparu cymorth i feysydd gwasanaeth ar nodi unrhyw wendidau posibl, a rhoi cyngor ar eu datrys, o ran bodloni gofynion y Safonau, yn ogystal â pharhau â rhai o ddyletswyddau mwy traddodiadol yr hen swydd Swyddog y Gymraeg. Mae Swyddog Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn hael o ran rhoi adborth cadarnhaol am y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref

Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflawni'i ddyletswyddau o ran y Safonau. Mae'r bartneriaeth gadarnhaol yma wedi annog sgysiau mwy agored ac adeiladol pan fo o'r farn nad yw'r Cyngor wedi cyrraedd nod ar achlysuron.

Mae Tiwtor y Gymraeg rhan-amser hefyd yn trefnu a chynnal cyrsiau a sesiynau dysgu Cymraeg i holl weithwyr y Cyngor. Yn y gorffennol, bu'r Cyngor yn talu darparwyr allanol (e.e. Canolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol De Cymru) i gynnal sesiynau i staff mewnol ond doedd y rhain ddim yn llwyddiannus gan nad oedden nhw'n berthnasol i'r meysydd gwasanaeth priodol. Hyd yn hyn (31 Mawrth 2020), mae'r tiwtor mewnol wedi tiwtora 542 o aelodau o staff ar bob lefel.

Mae'r nifer yma yn parhau i gynyddu bob blwyddyn gan ddangos y dylanwad cadarnhaol y mae ein tiwtor yn ei gael ar ein gweithle. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrosiect Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru gan sicrhau bod modd i staff y Cyngor fanteisio ar gymorth a thiwtora ar-lein. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor, ar nifer o achlysuron, wedi cefnogi unigolion i gyflawni cwrs preswyl am wythnos yn Nantgwytheryn – un o'r prif ganolfannau ar gyfer dysgu Cymraeg yn ddwys, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn cydnabod y flaenoriaeth wedi'i rhoi i'r Gymraeg gan y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddfa'r Cabinet, mae gan Uned Gwasanaethau Cymraeg uwch-gyfieithwyr penodol i ddarparu cymorth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i Aelodau ac Uwch Swyddogion o ran cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau. Mae hyn yn rhagori ar yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y Safonau. Er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl a chefnogi aelodau eraill o staff, mae dau aelod o staff wedi dechrau tystysgrif ôl-radd mewn cyfieithu ar y pryd.

Yn ogystal â hyn, cafodd Swyddog Prosiect yr Eisteddfod ei benodi yn 2019-2020. Prif amcanion y swyddog fydd cysylltu â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar ran y Cyngor mewn perthynas â chynnal yr Eisteddfod Genedlaethol (Rhondda Cynon Taf) 2023. Bydd y Swyddog Prosiect – Eisteddfod hefyd yn gweithio gyda holl feysydd gwasanaeth y Cyngor, grwpiau cymunedol a'r sector preifat wrth i raglen o weithgareddau gael ei datblygu a fydd yn cefnogi'r awdurdod lleol i gyrraedd ei darged cyfrannu penodol o £350,000 tuag at gynnal Eisteddfod Genedlaethol (Rhondda Cynon Taf) 2023.

Mae dogfennau ac adnoddau cyfarwyddyd yn parhau i gael eu llunio a'u dosbarthu yn ystod 2019-20, fel sydd wedi'i nodi isod.

Llawlyfr Arwyddion Adeiladau ac Arwyddion Gwaith Cyngor RhCT

Ar ôl i nifer o gwynion ddod i law yn ystod 2018-2019 o ran arwyddion ffyrdd dros dro y Cyngor, cydlynodd y Cyngor lawlyfr o arwyddion a chyfieithiadau wedi'u cymeradwyo i holl bartneriaid ei ddefnyddio. Cafodd mesurau hyrwyddo'r llawlyfr eu rheoli gan Reolwyr Caffael a Chontract ac mae ar gael i'w ddarllen [yma](#).

Gofalu Trwy'r Gymraeg – AP

Mae Cyngor RhCT yn sicrhau bod gan bob ffôn symudol aelodau o staff y gwasanaethau gofal cymdeithasol yr ap 'Gofalu Trwy'r Gymraeg'. Mae'r adnodd yma, sydd ar gael yn genedlaethol, wedi cael ei groesawu gan staff y rheng flaen yn gasgliad defnyddiol o ymadroddion sylfaenol mae modd eu defnyddio gyda chleientiaid sy'n siaradwyr Cymraeg.

Fideos y Rhaglen Ymsefydlu Corfforaethol

Mae Cyngor RhCT wedi llunio fideos ymsefydlu corfforaethol i'w defnyddio yn ystod 2020-2021 sy'n trafod y safonau a'u goblygiadau i staff mewn ffordd fwy rhagweithiol trwy ddefnyddio ffeithluniau ac animeiddiadau.

Ymgyrchoedd Diwylliant

Hyrwyddodd Gwasanaethau Cymraeg yr Ymgyrchoedd Diwylliant isod yn ystod 2019-2020.

Eisteddfod yr Urdd

Bob blwyddyn, mae nifer o ysgolion yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd. Roedd y Cyngor yn awyddus i ddathlu'r achlysur ledled ein Bwrdeistref Sirol. Hyrwyddodd y Cyngor yr ymgyrch yma trwy ychwanegu newyddion ar ei mewnwyd gan annog pobl i fynd i'r wyl gyda'u teuluoedd, mynd i'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y cystadleuaethau i dynnu lluniau i'w defnyddio yn ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a gweithio ar y cyd â'r Urdd fel partner cymunedol allweddol gan hedfan baner yr Urdd ym Mhencadlys y Cyngor yn ystod yr wyl.

Diwrnod Shwmae

Mae Diwrnod Shwmae yn gyfle unigryw i ddathlu'r amrywiaeth o sgiliau Cymraeg yn ein gweithle ac ein cymuned. Eleni, rhoddodd yr awdurdod lleol fideo at ei gilydd o staff a phartneriaid cymunedol yn defnyddio ein ffram 'hunlun' a byrddau wrth ddweud 'Shwmae'. Roedd hyn yn cynnwys staff o adrannau gwahanol ein sefydliad gan gynnwys y Prif Weithredwr, Aelodau'r Uwch Garfan Rheoli, Gwasanaethau Gwastraff, Gwasanaethau Llyfrgelloedd a gweithwyr Addysg i Oedolion. Cafodd tri bore coffi eu trefnu yn ein prif safleoedd y Cyngor a lansiwyd ni ddau boster corfforaethol i'w defnyddio ar draws ein safleoedd.

- a) 'Cofiwch ddechrau eich sgwrs gyda Shwmae, Bore Da neu Prynawn Da' i atgoffa staff bob dydd.
- b) 'BOG Standards' – cyfres o ymadroddion sylfaenol sydd wedi'u sillafu'n ffonetig i bobl eu hymarfer. Fel y mae'r enw yn awgrymu, mae'r rhain yn cael eu harddangos mewn toiledau o gwmpas safleoedd yr awdurdod lleol.

Diwrnod Owain Glyndŵr

Roedd y Cyngor yn dymuno nodi, yn rhan o un o'i ymgyrchoedd, elfen hanesyddol felly penderfynodd ar Ddiwrnod Owain Glyndŵr. Cafodd 6 ysgol (bron i 200 o ddisgyblion) eu gwahodd i'n llyfrgelloedd am sesiwn adrodd stori a chrefftau ar Owain Glyndŵr, yn ogystal â negeseuon codi ymwybyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dydd Gŵyl Dewi

Roedd dathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn cynnwys negeseuon i'n cymunedau ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, bore coffi yn un o'n prif safleoedd y Cyngor a negeseuon ar ein mewnwyd gan roi gwybodaeth am Ddewi Sant i staff. Y prif ganolbwynt oedd lansio ein Cynllun Cyfoedion Cymraeg corfforaethol.

Comisiynydd y Gymraeg – Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol

Mae'r Uned yn parhau i weithio gydag Aelodau a Swyddogion Comisiynydd y Gymraeg i gymeradwyo Rhestr ddiwygiedig o Enwau Lleoedd Cymraeg sy'n berthnasol i Rondda Cynon Taf, ac eithrio'r pedwar prif newid mewn perthynas â Threorci, Rhydfelen, Llanwynno a Threfforest.

Strategaeth 5 mlynedd i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Uned wedi parhau i arwain ar Strategaeth 5 mlynedd y Cyngor i hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n canolbwyntio ar wneud cynnydd o 6.8% yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg i 29,670 erbyn 2021, gan gynyddu defnydd y Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd y cyhoedd a bywyd y gymuned, a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol a chymeriad cymoedd De Cymru.

Mae adroddiad sy'n amlinellu cynnydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno bob blwyddyn i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ei drafod. Mae unrhyw argymhellion wedi'u cymeradwyo gan Aelodau yn cael eu rhoi ar waith.

Cynllun Cyfoedion Cymraeg

Mae Uned Gwasanaethau Cymraeg yn derbyn adborth yn rheolaidd sy'n dweud mai prin iawn yw'r cyfleoedd i staff ymarfer eu Cymraeg yn y gweithle proffesiynol, yn enwedig y rheiny ar lefel 3 a 4. Mae'r Cynllun Cyfoedion Cymraeg wedi cael ei sefydlu i alluogi staff i gwrdd â siaradwr Cymraeg bob mis yn ein safle peilot, a hynny i fagu eu hyder a helpu i'w hannog nhw i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy.

Meysydd gwasanaeth eraill

Gan gryfhau'r berthynas rhwng yr Uned Gwasanaethau Cymraeg a meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor, cytunwyd y byddai pob maes gwasanaeth yn parhau i adrodd am ddatblygiadau perthnasol yn eu Hunanwerthusiadau Blynyddol o'r Gwasanaeth oherwydd pwysigrwydd y Safonau. Mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)

Cafodd y cwynion canlynol eu derbyn, neu parhawyd i ymchwilio iddyn nhw, yn ystod/yn 2019 - 2020:

Dyddiad gŵyn	y	Math	Gan	Deiliant/Ymateb
Ebrill 2019		Gwasanaethau Hamdden: Camsillafu mewn hysbyseb ar Facebook.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Atgoffa'r Adran Marchnata i wirio sillafu cyn ychwanegu hysbyseb newydd.
Ebrill 2019		Priffyrdd: Arwyddion ffyrdd gyda fersiwn Gymraeg anghywir.	Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol.	Cwyn ddilys. Cafodd arwyddion cywir eu gosod.
Mai 2019		Priffyrdd: Honiad o fethu â gosod arwyddion dwyieithog.	Aelod o'r cyhoedd.	Doedd y gŵyn ddim yn ddilys. Roedd yr arwydd yn cael ei osod mewn 2 ran o ganlyniad i faint. Cafodd y fersiwn Gymraeg ei gosod yn fuan ar ôl y Saesneg. Cafodd y cwsmer wybod mai'r Cyngor Cymunedol oedd yn berchen ar yr arwydd a dydy e ddim yn dod o dan ofynion Safonau'r Gymraeg.
Mai 2019		Gwasanaethau Parcio: Proses talu dirwy ar-lein trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Mae Gwasanaethau Parcio (Grŵp Parcio De Cymru) bellach wedi lansio gwefan ddwyieithog gan gynnwys yr opsiwn talu (Ionawr 2020).
Mai 2019		Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol: Methu â gosod poster i'r gymuned yn Saesneg yn unig.	Aelod Seneddol ar ran aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys yn rhannol. Eglurwyd dehongliad Cyngor RhCT o Safonau'r Gymraeg; mae modd arddangos posteri i'r gymuned yn Saesneg yn unig, a hynny yn ôl disgrisiwn rheolwr yr adeilad. Cafodd gwybodaeth ei rhoi i staff am ein dull i osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol.
Mai 2019		Priffyrdd: Arwyddion ffyrdd gyda fersiwn Gymraeg anghywir.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Arwyddion newydd wedi'u gosod.
Mai 2019		Priffyrdd: Honiad o fethu â gosod arwyddion dwyieithog.	Aelod o'r cyhoedd.	Doedd y gŵyn ddim yn ddilys. Wrth ymchwilio'n bellach, roedd hi'n amlwg i'r arwydd gael ei osod cyn i'r Safonau gael eu cyflwyno. Mae arwyddion newydd yn cael eu creu'n ddwyieithog.
Mai 2019 (cwyn wrthi'n		Gwasanaeth Addysg: Honiad o fethu â	Comisiynydd y Gymraeg (CSG548)	Mae'r Cyngor wedi ymateb i'r broses ymchwilio ac mae wrthi'n aros am

cael ei hymchwilio)	chydymffurfio â safonau ymgynghori wrth ymgynghori ar ad-drefnu arfaethedig ysgolion yn ardal Pontypridd.		ymateb ffurfiol gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Mehefin 2019	Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant: Gohebiaeth Saesneg yn unig wedi'i derbyn er mai Cymraeg oedd y dewis iaith wedi'i nodi.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cynhaliodd y maes gwasanaeth weithdai gyda'r Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg i drafod darpariaeth gwasanaethau, Coeden Benderfyniad – Gohebiaeth â'r Cyhoedd a chamau gweithredu i gydymffurfio yn y dyfodol.
Mehefin 2019	Gofal i Gwsmeriaid a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion: Gohebiaeth Cynllun Adnewyddu Bathodyn Glas yn Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cafodd system newydd ei rhoi ar waith i sicrhau bod holl ohebiaeth bellach yn cael ei hanfon yn ddwyieithog. Mae data yn cael ei ddarparu gan adran Llywodraeth y DU nad yw'n cofnodi dewis iaith. Felly, mae dull dwyieithog wedi cael ei roi ar waith i fodloni gofynion y Safonau.
Mehefin 2019	Y Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol: Cyfeiriad lleoliad ar gyfrif cyfryngau cymdeithasol yn Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cafodd y cyfeiriad ei ddiweddarau.
Mehefin 2019	Gofal i Gwsmeriaid: Methu â sicrhau bod tudalen we Gymraeg i'w gweld ar ôl cwblhau ffurflen Gymraeg ar-lein.	Comisiynydd y Gymraeg (CSG570)	Derbyniodd y Cyngor y bai ond roedd modd osgoi ymchwiliad ffurfiol trwy ddangos y camau rhagweithiol y mae Swyddogion Cydymffurfio, Monitro a Gofal i Gwsmeriaid wedi'u cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod prosesau cyhoeddi gwefannau a sicrwydd ansawdd yn cael eu rheoli'n fwy llym. Ysgrifennodd y Comisiynydd aton ni'n ffurfiol ar 4 Gorffennaf i roi gwybod na fyddai'n cynnal ymchwiliad llawn.
Mehefin 2019	Refeniw a Budd-daliadau: Gohebiaeth Saesneg yn unig wedi'i derbyn er mai Cymraeg oedd y dewis iaith wedi'i nodi.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Rhoddwyd gohebiaeth Gymraeg i'r cwsmer.

Mehfin 2019	Ddim yn gwybod: Honiad o roi derbynneb Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Roedd asiantau Gofal i Gwsmeriaid wedi cysylltu â'r aelod o'r cyhoedd i gasglu rhagor o wybodaeth ond penderfynodd beidio â pharhau â'r gŵyn.
Medi 2019	Cludiant: Arwyddion i'r cyhoedd gyda chyfieithiad Cymraeg anghywir.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cafodd arwyddion eu gwneud a'u gosod.
Hydref 2019 (cwyn wrthi'n cael ei hymchwilio)	Y Prifweithredwr: Honiad nad yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau wedi ystyried gofynion Safon 88 a 89 wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag ad- drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd.	Comisiynydd y Gymraeg (CSG633)	Cyflwynodd y Cyngor ei ymateb cychwynnol i'r Hysbysiad Tystiolaeth dyddiedig 4 Tachwedd 2019 ar 28 Tachwedd 2019 ac mae wrthi'n aros am ohebiaeth gan swyddfa'r Comisiynydd.
Hydref 2019	Gofal i Gwsmeriaid: Ciw Cymraeg wedi datgysylltu'r alwad heb drosglwyddo i'r asiant.	Swyddog Comisiynydd y Gymraeg	Cwyn ddilys. Sicrhaodd Rheolwyr Gwasanaeth fod y broses wedi'i thrwsio ar ôl i wall ddigwydd pan gafodd negeseuon wedi'u recordio ymlaen llaw eu rhoi ar waith. Bydd swyddogion sy'n siaradwyr Cymraeg yn rhoi prawf ar linellau cyn eu gwneud nhw'n fyw yn y dyfodol.
Tachwedd 2019	Gofal i Gwsmeriaid / Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau: Roedd gan y ffurflen ar-lein sawl camgymeriad yn y cynnwys Cymraeg.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cafodd y ffurflen ei diweddarau.
Tachwedd 2019	Refeniw a Budd- daliadau: Darpariaeth gwefan yn Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Prosesau e-gyfrif ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r adran yn ymrwmo i sicrhau cysondeb yn gynnar yn 2020 yn ein hymateb i'r cwsmer.
Ionawr 2020	Gwasanaethau Llywodraethol: Doedd ochr Gymraeg y wefan ddim wedi'i diweddarau.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Cafodd y wefan ei diweddarau a chafodd y dogfennau PDF eu cyfieithu.
Ionawr 2020	Gwasanaethau Etholiadol: Gohebiaeth yn Saesneg yn unig	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn ddilys. Bydd pob llythyr yn cael ei anfon i Uned Gwasanaethau Cymraeg i'w brawfddarllen yn y dyfodol.

	neu lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, mae sawl camgymeriad.		
Chwefror 2020	Refeniw a Budd-daliadau: Roedd gan y neges 'allan o'r swyddfa' Gymraeg sawl camgymeriad.	Comisiynydd y Gymraeg (CSG701)	Mae'r Cyngor wedi derbyn cyfrifoldeb ac mae wrthi'n aros am hysbysiad tystiolaeth. Yn y cyfamser, mae holl negeseuon 'allan o'r swyddfa' yr adran wedi cael eu diweddarau ac mae templedi ar gael i'w diwygio yn y dyfodol. Mae negeseuon ychwanegol wedi cael eu hanfon at bob Rheolwr Gwasanaeth i atgoffa staff y Cyngor.
Mawrth 2020	Gwasanaethau Addysg: Darpariaeth gofal plant yn y 7 prif hwb/canolfan a gafodd eu sefydlu yn ystod y pandemig Covid-19 yn Saesneg yn unig.	Aelod o'r cyhoedd.	Cwyn wrthi'n cael ei hymchwilio.

SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r adran yma'n nodi nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2019-2020 (Mawrth 2020). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

Blwyddyn	Staff*	Math o staff	Dim sgiliau**	%
17 - 18	7061	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	4730	66.99%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	3871	54.78%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	3134	43.64%
Blwyddyn	Staff*	Math o staff	Rhugl	%
17 - 18	7061	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	402	5.69%

18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	491	6.95%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	569	7.92%
Blwyddyn	Staff*	Math o staff	Cymraeg Lefel 1	%
17 - 18	7061	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	1562	22.12%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	2261	31.99%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	2658	37.01%
			Cymraeg Lefel 2	%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	315	4.46%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	349	4.86%
			Cymraeg Lefel 3	%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	129	1.83%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	137	1.90%
			Cymraeg Lefel 4	%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	119	1.68%
19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	143	1.99%
			Cymraeg Lefel 5	%
18 - 19	7067	Staff sydd ddim yn gweithio ysgolion mewn	372	5.26%

19 - 20	7181	Staff sydd ddim yn gweithio mewn ysgolion	426	5.93%
---------	------	---	-----	-------

*Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithiwr wedi'i gyfrif ar gyfer pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd.

**Mae'r ffigur hefyd yn cynnwys staff sydd heb ymateb i'r holiadur eto.

HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2)(b) a (c)

Does dim newid wedi bod ers y sefyllfa yn 2019-2020 o ran hyfforddiant ar gyfer Recriwtio a Hysbysebu, Rheoli Cyflawniad, Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu, Ymsefydlu, Delio â'r Cyhoedd ac Iechyd a Diogelwch, yn seiliedig ar y cofnodion a gafodd eu cadw yn unol â Safon 152 sy'n seiliedig ar ofynion Safon 128.

LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)

Caiff y ffigyrau canlynol eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136. Ers mis Medi 2017, mae'n hanfodol bod pob swydd newydd yn gofyn am Gymraeg Lefel 1 (Cymraeg sylfaenol) gydag opsiynau i reolwyr recriwtio ar lefel 2 i lefel 5 gan ddibynnu ar y swydd. Mae nifer y swyddi ar y lefel rhwng 2 a 5 fel a ganlyn:

Lefelau Sgiliau Cymraeg	L1	432
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L2	6
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L3	2
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L4	1
Lefelau Sgiliau Cymraeg	L5	6

Mae cynnydd yn y maes yma wedi bod yn araf gan ystyried y ffigyrau y llynedd a'r ffaith bod meysydd gwasanaeth wedi cyfaddef bod angen rhagor o sgiliau siarad Cymraeg. Mae angen cynnal rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth rheolwyr o bwysigrwydd asesiadau recriwtio yn rhan hanfodol o waith cynllunio'r gweithlu. Bydd cynyddu nifer y swyddogion sy'n siaradwyr Cymraeg yn lliniaru unrhyw bryderon ynglŷn â chynnal gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhagor o wybodaeth:

Yr Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn D

Cwm Clydach

Tonypandy

Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio

Mae'r canlynol yn nodi camau gweithredu mae pob maes gwasanaeth wedi'u cymryd i gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg a dyfyniadau o'u Hunanwerthusiadau o'r Gwasanaeth.

Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod ein holl brosesau a gohebiaeth yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Rydyn ni wedi datblygu Siart Gwneud Penderfyniadau ynglŷn â Gohebiaeth er mwyn helpu swyddogion i gydymffurfio. Cafodd hyn ei nodi'n arfer da gan y Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg ac mae wedi cael ei roi ar waith o ran adrannau eraill o'r Cyngor.

Yn rhan o'r arolwg, rydyn ni eisoes wedi cyflawni'r canlynol:

- Adolygiad parhaus o dudalennau'r wefan / dileu unrhyw dudalennau nad oedden nhw'n cydymffurfio.
- Adolygu a chyfieithu ffurflenni / llythyrau safonol.
- Pob neges ar Facebook yn Gymraeg a Saesneg.
- Rhoi systemau ar waith i gasglu dewis iaith ar ein prif gronfa ddata ac, wrth gasglu data (e.e. ffurflenni arolygu) i sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol.
- Mae pob gohebiaeth gan y garfan Iechyd a Lles ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac rydyn ni wedi ymgorffori adborth gan garfan Gwasanaethau Cymraeg ynglŷn â sut rydyn ni'n gwella'r ddarpariaeth.
- Cefnogi nifer o staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg canolradd yn ogystal â hyfforddiant sylfaenol.
- Mae cofrestrydd sy'n siaradwr Cymraeg ar gael ar gyfer cofrestru genedigaethau a marwolaethau, a gweinyddu priodasau; bydd hysbyseb am swyddogion cofrestru achlysurol yn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais.

- Mae nifer o arolygiadau bellach yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl cais y busnes.
- Mae swyddogion sy'n siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith yn y swyddfa yn fwy aml i gynnal eu gallu; mae rhai swyddogion yn dewis cynnal calendrau Outlook yn Gymraeg.
- Mae llyfryn Scamiau Profedigaeth dwyieithog wedi cael ei lunio gan Safonau Masnach.

Uned Busnes y Cyngor:

- Mae'r gwasanaeth wedi codi proffil yr iaith yn sylweddol.

- Mae gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu ar gyfer pob pwyllgor e.e. y Cyngor Llawn, Craffu a Rheoleiddio, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi i Aelodau.
- Mae cyfieithwyr penodol sy'n gweithio'n agos gydag Uned Busnes y Cyngor.
- Mae holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu cyfieithu, gan gynnwys agendâu a chofnodion pwyllgorau, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd dull dwyieithog tuag at gyflwyniadau PowerPoint sy'n cael eu cyflwyno i Aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd craffu yn cael ei roi ar waith.
- Gohebiaeth ddwyieithog â'r holl Aelodau Etholedig drwy e-bost.
- Darpariaeth i aelodau o'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd craffu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae staff yn cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cynhaliwyd cyfarfod gweithdy 'Cyfieithu' cadarnhaol rhwng Aelodau / Swyddogion Uned Gwasanaethau Cymraeg ac Uned Busnes y Cyngor i drafod dulliau pellach ac i nodi rhwystrau i Aelodau o ran y Gymraeg.
- Darpariaeth yn rhaglen waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar gydymffurfiaid y Cyngor â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Mae Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg wedi cael ei gefnogi trwy gydol y flwyddyn. Mae'n grŵp trawsbleidiol o Aelodau a Swyddogion sy'n edrych ar ddatblygu polisiau a thueddiadau gwasanaethau i gryfhau'r Gymraeg ar draws y Cyngor er budd Aelodau.
- Wedi defnyddio ap Modern Gov, sy'n caniatáu i Aelodau benderfynu ar ddewis iaith wrth ddarllen papurau pwyllgorau.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Mae'n bosibl y bydd angen cynnal gwaith gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg o ran derbyn E-ddeisebau trwy system Modern Gov fel sydd wedi'i nodi o'r blaen – er ein bod ni'n effro i adolygiad ehangach sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.
- Gweithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i lunio modiwlau e-ddysgu i sicrhau eu bod nhw ar gael i Aelodau yn ddwyieithog.

Y Cabinet, Cyfathrebu a Gwasanaethau Digidol

- Mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu hintegreiddio'n llawn yng ngwaith cyfathrebu – mae'r holl gyfryngau'n ddwyieithog.
- Mae cymorth wedi cael ei ddarparu ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymreig trwy gydol y flwyddyn – mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys hyrwyddo Diwrnod Owain Glyndŵr a Diwrnod Shwmae.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Parhau i weithio'n agos gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i roi cymorth cynnwys ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg.
- Sefydlu dulliau cyfathrebu gwell i hwyluso llunio cynnwys digidol.

Gwasanaethau Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Mae'r holl ddogfennau Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gael yn Gymraeg. Mae gennym berthynas waith ardderchog gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg yr Awdurdod o ganlyniad i'r angen i gyfieithu'r mwyafrif helaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni hefyd yn cynorthwyo Uned Gwasanaethau Cymraeg gyda'u hymgyngoriadau eu hunain. Mae'r adran yn parhau i gefnogi aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg er mwyn eu helpu i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol achlysuron rydyn ni'n cymryd rhan ynddyn nhw.
- Rydyn ni wedi cyflwyno cwestiwn newydd i'w ddefnyddio ar gyfer pob ymgynghoriad ar newid gwasanaeth er mwyn asesu'r effaith y bydd unrhyw newid yn ei gael ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Parhau i helpu staff i ddysgu Cymraeg er mwyn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i drigolion a lleihau dibyniaeth ar yr Uned Gwasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod pob gwasanaeth yn mabwysiadu'r cwestiwn safonol yn unrhyw ymgynghoriadau newid gwasanaeth.

Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymateb yn gadarnhaol i ofynion Safonau'r Gymraeg, gyda'r holl ddeunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth a cheisiadau ar-lein, yn ddwyieithog erbyn hyn.

Caiff sgiliau iaith eu hatgyfnerthu trwy recriwtio lle bo hynny'n bosibl, er nad yw hi bob amser yn bosibl recriwtio unigolion sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y swydd ac sydd hefyd â'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol. Wrth ymgysylltu â gwasanaethau, gofynnir i deuluoedd bob amser am eu dewis iaith ac mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu penodi i weithio gyda theuluoedd unigol.

Cymeradwywyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018. Mae'r cynllun yn manylu ar weledigaeth y Cyngor ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r ffordd y caiff y Gymraeg ei dysgu. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyd-fynd yn agos â'r strategaeth 5 mlynedd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Cafodd ei lunio ochr yn ochr â rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys Sefydliadau Cymunedol Cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys cynllun gweithredu manwl am y tro cyntaf, a bydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd bob dwy flynedd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y canlyniadau. Mae gan y Gwasanaeth Blynnyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid gyfrifoldebau am gyflawni camau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid (YEPS) Swyddog Ymgysylltu leuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob un o'r 4 ysgol uwchradd Gymraeg. Mae'r Swyddog Ymgysylltu leuenctid yn cynnig cefnogaeth i bobl ifainc wella eu gwydnwch; yn darparu cyrsiau achrededig ac yn brif bwynt cyswllt ar gyfer yr holl ddarpariaeth ar ôl ysgol mae'r

gwasanaeth yn ei chynnig i bobl ifainc. Roedd gweithgareddau Cymraeg hefyd yn cael eu cynnig trwy gydol y gwyliau ysgol fel Cerdded Ceunentydd, Rafftio ac Adeiladu Tîm.

Mae gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Menter Iaith i gyflwyno rhaglen o weithgareddau mynediad agored i bobl ifainc sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys 4 Fforwm Ieuenctid yn yr ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn RhCT. Mae'r fforymau'n cyfarfod bob pythefnos gyda thua 6-10 o bobl ifainc fesul ysgol yn cymryd rhan. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn hwyluso trafodaethau gyda phobl ifainc, gyda ffocws ar godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a hyrwyddo'r cyfleoedd a ddarperir trwy gydol y flwyddyn i bobl ifainc fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac ennill achrediad. Yn 2017/2018 darparodd y Fenter Iaith 15 sesiwn i 107 o bobl ifainc, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, mae Cynnig Gofal Plant Dechrau'n Deg ar gael i bob teulu â phlant 2-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd â chodau post cymwys. Mae'r cynnig ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd dewis rhieni bob amser yn cael ei ystyried. Ar hyn o bryd, mae 25% o holl ofal plant Dechrau'n Deg yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn unol ag argaeledd addysg y brif ffrwd.

Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid ar gyfer staff yr Awdurdod Lleol i ymgymryd â hyfforddiant iaith ychwanegol yn nhymer yr Hydref 2018. Y nod oedd cyflwyno'r hyfforddiant ehangach yn dilyn y cynllun peilot, a hynny i'r lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a gomisiynwyd, a chafodd hyn ei gyflawni yn Nhymer yr Haf 2019. Mae sgoriau'r adnodd monitro ac asesu 2017-18 ar gyfer elfen iaith Gymraeg wedi cynyddu i 78%, gan ddangos cynnydd o 7%. Mae copïau o'r llyfryn Manteision Dwyieithrwydd wedi'u hanfon at yr holl lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a'r Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu ymhlith rhieni.

Mae'r holl staff gofal plant wedi cael eu hyfforddi hyd at lefel 1 ac maen nhw'n defnyddio ymadroddion Cymraeg yn ystod grwpiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wrth ymwneud â'r rhieni a'r plant wyneb yn wyneb. Ar hyn o bryd mae staff Siarad a Chwarae yn defnyddio ymadroddion Cymraeg wrth gyfathrebu â rhieni/plant yn eu grwpiau. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio 'ymadrodd yr wythnos' er mwyn gwella sgiliau staff wrth ddefnyddio geiriau neu frawddegau Cymraeg allweddol. Mae'r holl lyfrau stori a ddefnyddir yn y grwpiau Siarad a Chwarae yn ddwyieithog fel bod modd adrodd y stori a benthycu'r llyfrau i rieni. Weithiau, bydd y garfan yn darllen y fersiwn Gymraeg o'r stori. Mae caneuon a rhigymau Cymraeg yn cael eu canu bob wythnos.

Rydyn ni'n parhau i gynnig defnydd rhad ac am ddim i awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector o'r cyfleusterau yn y 3 Canolfan i Blant fel bod modd darparu cyrsiau hyfforddi yn Gymraeg.

Mae pob aelod newydd o staff ar draws y Gwasanaeth Cydnerthedd a Llesiant y Gymuned yn cael ei gefnogi i gwblhau hyfforddiant Cyflwyniad i Gymraeg yr Awdurdod Lleol, ac yn cael ei gefnogi'n llawn i gwblhau unrhyw hyfforddiant pellach yn ystod oriau gwaith.

Mae rhaid i holl bartneriaid wedi'u comisiynu gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg lle bo'n berthnasol i'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflawni. Mae Carfan Gomisiynu'r Gwasanaeth Cydnerthedd a Llesiant y Gymuned yn nodi p'un o'r 171 o Safonau yn berthnasol i'r gwasanaeth wedi'i gontractio ac mae'r rhain yn cael eu rhestru yn y manyleb gwasanaeth cyn tendro. Mae'r Swyddogion Monitro Contractau a Chydymffurfio yn cynnal ymweliadau monitro bob chwarter i sicrhau bod contractau'n cydymffurfio, gan gynnwys gwiriadau cydymffurfio ar Safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn cael ei roi ar waith o ran contractau gofal plant yn 2019/20.

Yn ystod 2018/19, cafodd ffurflen monitro Safonau'r Gymraeg ar wahân ei datblygu ac mae'r holl ddarparwyr bellach yn destun Archwiliad Safonau'r Gymraeg sy'n cael ei gynnal gan eu Swyddog Monitro Contractau a Chydymffurfio. Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu

hanfon yn ôl at ddarparwyr yn rhan o'u cyfarfod adolygu cyflawniad blynyddol. Nodir bod angen camau gweithredu brys os oes unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Parhau i gefnogi staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Ymchwilio i ddulliau dysgu eraill er mwyn galluogi rhagor o staff i fanteisio ar hyfforddiant er mwyn gwella hyfedredd yn y Gymraeg ar draws ystod o rolau.
- Adolygu lleoliadau Gofal Plant wedi'u comisiynu gan raglen Dechrau'n Deg i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi'u nodi yn eu contractau.
- Wrth ymgymryd â'r adolygiad comisiynu Gofal Plant Dechrau'n Deg, mae argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnwys yn elfen allweddol.

Gofal i Gwsmeriaid

Mae'r polisi un drws ffrynt yn ei gwneud hi'n haws i RhCT fodloni Safonau'r Gymraeg, gan roi cynnig cyfartal ar y pwynt cyswllt cyntaf drwy ddefnyddio prosesau awtomataidd/seiliedig ar ymgynghorwyr.

- Mae Safonau'r Gymraeg yn enghraifft o sut y gall proses gyfuno gefnogi'n well na, er enghraifft, dderbynfeydd/switsfyrddau di-drefn ac ati.
- Gwefannau a thudalennau 'sblash' dwyieithog - gwefan ddwyieithog ar gyfer yr holl wybodaeth a thrafodion.
- Prosesau ar-lein y garfan we – wedi'u cyfieithu ymlaen llaw, newidiadau parhaus.
- Ymatebion e-bost - Erbyn hyn mae pob ffurflen fewnol yn anfon derbynebaw e-bost oddi wrth gwasanaethauigwsmeriaid@rctcbc.gov.uk os cwblhawyd y ffurflen yn Gymraeg.
- Cyfeiriadau Cymraeg – Edrych ar wefan 'In your neighbourhood'. – gwaith wrthi'n cael ei gynnal i ganiatáu i gwsmeriaid chwilio am le ac enw stryd Cymraeg wrth ddefnyddio ffurflenni mewnol.
- Rhifau allweddol 'gwasgwch 1' ar gyfer gwasanaeth Cymraeg (dim rhaid i'r sawl sy'n gwneud yr alwad aros yn hirach).
- Mae gan bob llinell (switsfyrddau rheng flaen a hen switsfyrddau) opsiwn 'gwasgwch 1' ar gyfer y Gymraeg – gyda chiwiau Cymraeg unigol sy'n cynnig yr un gwasanaeth (e.e. negeseuon ac ati) ag sydd ar gael i gwsmeriaid sy'n siaradwyr Saesneg.
- Dangosydd Perfformiad o 90% ar gyfer y Ganolfan Alwadau mewn perthynas ag Ymgynghorwyr sy'n Siarad Cymraeg.
- 2018/19 - Derbyniwyd 1,186 o alwadau ffôn (0.2% o'r holl alwadau) gydag amser ymateb cyfartalog o 126 eiliad (77 eiliad yn gynt na'r ciwiau eraill yn ystod y dydd).
- Mae apwyntiadau iBobUn yn cael eu cynnig a'u cynnal yn Gymraeg.
- Cefnogi'r Garfan Gwasanaethau Cymraeg a'r Comisiynydd trwy roi adborth amserol i unrhyw ymholiadau am ddarpariaeth gwasanaethau.

□ Mae ymgynghorwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael sesiynau gloywi i sicrhau bod sgiliau'n cael eu cynnal.

□ Mae Grŵp Canolbwyntio ar Gwsmeriaid Cymru Gyfan (CFW) yn cysylltu â'r Comisiynydd yn rheolaidd.

Mewnrwyd – tudalen 'sblash' a fersiynau Saesneg a Chymraeg o sawl rhan gan gynnwys y dudalen hafan. Lle mae tudalen ar gael yn y ddwy iaith, mae botwm yn caniatáu i staff newid iaith gan aros ar yr un dudalen. Mae adolygiad diweddar wedi nodi meysydd i wella nodweddion ymhellach.

Meysydd Posibl i'w Gwella

□ Recriwtio ymgynghorwyr sy'n siarad Cymraeg a hyfforddi'r rhai presennol.

Gwasanaethau Cymuned

Mae Gwasanaethau Cymuned yn ffodus o fod â nifer o siaradwyr Cymraeg ymhlith ei staff a rheolwyr, er bod hyn yn gymysg yn rhai meysydd ac mae heriau o hyd.

Dyma ganran y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sydd wedi cofnodi eu hunain yn Lefel 4 a 5:

- Addysg i Oedolion – 17.6%
- Celfyddydau (Gwasanaethau Diwylliannol) – 25.2%
- Datblygu Cymunedol – 14.2%
- Rhaglenni Cyflogaeth – 3.2%
- Llyfrgelloedd – 8.2%
- Gwasanaethau Cymraeg – 100%

Mae swyddog sy'n siaradwr Cymraeg ar gael ar draws pob maes gwasanaeth ond mae heriau mewn perthynas â sicrhau bod modd manteisio ar wasanaethau Cymraeg i gwsmeriaid o ran gwasanaethau lle mae lleoliadau cyflawni lluosog. Mae hyn yn arbennig o wir o ran llyfrgelloedd, darpariaeth Cymunedau am Waith a Mwy a darpariaeth celfyddydau. Serch hynny, aethpwyd i'r afael â rhai o hyn trwy gofrestru staff ar gyrsiau gloywi iaith (o ran llyfrgelloedd) a chymysgedd o gyrsiau lefel sylfaenol a chyrsiau lefel uwch (o ran Gwasanaeth y Celfyddydau ac Addysg i Oedolion).

Mae staff yn effro i bwysigrwydd cynnig gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae systemau ar waith yn eu meysydd gwasanaeth i sicrhau bod modd cyflawni hyn. Mae staff yn eglur o ran y gofyniad i nodi dewis iaith unigolyn ac i ymateb i unrhyw ohebiaeth sydd wedi dod i law yn yr iaith o'i ddewis. Mae datblygu dull cydgysylltiedig ar gyfer cofnodi'r wybodaeth yma yn her o hyd ac yn un sy'n gyffredin ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn amodol ar y safon yma.

Mae 50% o'r rheolwyr gwasanaeth yn rhugl yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, fel bod modd cynnal yr adolygiadau cyflawniad a chyfarfodydd 1:1 misol rhwng y rheolwyr yma a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth yn Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae holl ohebiaeth rhynddyn nhw yn cael ei chynnal yn Gymraeg gan mai dyma eu dull naturiol o gyfathrebu (oni bai bod siaradwyr Saesneg yn rhan o'r ohebiaeth, lle byddan nhw'n mynd yn

ôl at siarad Saesneg). Mae hyn hefyd yn golygu bod modd delio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Adnoddau Dynol yn Gymraeg a hyrwyddo'r cynnig mewn perthynas â Safonau 101-109 ymhlith gweithlu'r gwasanaethau ehangach.

O safbwynt sgiliau Cymraeg staff, bydd angen annog y rheiny ar Lefelau 1-3 i wneud cynnydd pellach fel y bydd siaradwyr â'r sgiliau digonol ar draws gwasanaethau rheng flaen er mwyn ceisio bodloni safon penderfyniad Tribiwnlys y Gymraeg. Er enghraifft, mae 41 o aelodau o staff sydd, ar hyn o bryd, ar Lefel 2 a allai gael cynnig i wneud cynnydd pellach. (Mae rheolwyr yn cefnogi datblygu'r sgiliau yma ac yn barod i ryddhau staff rheng flaen i gyflawni hyn).

Mae holl ddogfennau a chyhoeddusrwydd ysgrifenedig yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol. Mae pob neges cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae newidiadau i dudalennau gwe yn cael eu hanfon i'w cyfieithu fel bod unrhyw newidiadau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Does dim cwyn swyddogol wedi bod mewn perthynas â chynnig Cymraeg gwasanaethau cymuned. Serch hynny, mae ambell i sylw wedi cael ei ddweud wrth staff, nad oedd modd iddyn nhw ddelio â holl ofynion cwsmer yn Gymraeg, gan nad oedd y cwsmer yn hapus am gael ei atgyfeirio at aelod arall o staff. (Yn yr amgylchiadau yma, roedd y cwsmeriaid o'r farn y dylai'r poster a arddangoswyd – 'Hapus i siarad Cymraeg' – olygu bod modd i'r unigolyn cyntaf maen nhw'n ymgysylltu â fe ddelio â nhw. (Doedd hyn ddim yn ofyniad yn ôl y Safonau adeg hynny).

Mae rhai adrannau o Wasanaethau Cymuned yn comisiynu darparwyr trydydd parti i gefnogi eu gwaith er enghraifft, mae nifer o glybiau gwaith Cymunedau am Waith a Mwy a sesiynau Dydd Gwener Digidol yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd parti. Manteisiwyd ar gymorth yr Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r holl bartion wedi'u comisiynu yn tynnu sylw at y safonau penodol mae rhaid iddyn nhw eu bodloni. Mae elfen yma'r contract yn destun monitro gan y Garfan Gomisiynu.

Mae'r rhan fwyaf o wefannau'n ddwyieithog. Serch hynny, mae gwaith i'w wneud o hyd ar y wefan sydd â'r Archif Lluniau Digidol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn.

Mae'n werth nodi bod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhagori ar y dangosydd ansawdd presennol wedi'i nodi gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant canrannol ar lyfrau ac adnoddau Cymraeg ar-lein. Effaith hyn oedd cynyddu nifer y benthyciadau llyfrau Cymraeg sy'n tueddu profi'r ffaith bod modd i ni, fel gwasanaethau, greu galw am wasanaethau yn Gymraeg yn hytrach na bod yn ymatebol.

Ers y hunanwerthusiad diwethaf, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi gweithio i fynd i'r afael â'r materion wedi'u nodi yn yr Adroddiad Cydymffurfio 2018 gan gynnwys sicrhau bod holl bolisiâu'r llyfrgelloedd yn cael eu cyfieithu a'u diweddarau yn Gymraeg, prynu stampiau â dyddiadau dwyieithog, adfer dolenni gwefannau i dudalennau Cymraeg a sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd wedi mynychu cyrsiau gloywi Cymraeg.

Mae darpariaeth gwasanaethau ar gyfer meysydd gwasanaeth wedi'u nodi yn ystod yr ymgynghoriad yn 2016 ar ddatblygu Strategaeth 5 mlynedd fel meysydd blaenoriaeth i drigolion – mae hyn yn cynnwys Llyfrgelloedd, Addysg i Oedolion a'r Celfyddydau – wedi sicrhau eu bod yn cyfrannu at dargedau penodol y Cynllun Gweithredu. Yn ogystal â hyn, mae Cynllun y Gymraeg Gwasanaeth y Celfyddydau, a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Celfyddydau Cymru yn rhan o'r cytundeb cyllid refeniw, yn cyfateb i Strategaeth y Cyngor ar gyfer hyrwyddo'r iaith ac yn tynnu sylw at gamau gweithredu i gynyddu nifer y cyfleoedd i blant a phobl ifainc gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Cefnogi staff i wella eu sgiliau ieithyddol ymhellach.
- Parhau i weithio ar yr Archif Lluniau Digidol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn.

Adnoddau Dynol

Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau i fynd i'r afael â hyfforddiant lefel 1 ac i archwilio ffyrdd mwy effeithiol o weithio, yn enwedig o ran gweithwyr achlysurol rhan amser.

Rydyn ni wedi parhau i flaenoriaethu darpariaeth gwasanaeth Cymraeg ac wedi gwneud cynnydd o un siaradwr Cymraeg. Rydyn ni'n parhau i adolygu'r holl ddogfennau a pholisïau i sicrhau bod y fersiynau Cymraeg wedi'u hintegreiddio ac ar gael. Trwy gyfarfodydd misol gyda'r Swyddog Cydymffurfio, mae'r adran yn gweithio trwy bolisïau y mae'r rhan fwyaf wedi cael eu cyfieithu erbyn hyn, a mynd i'r afael â materion data ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Rydyn ni hefyd yn parhau i fynd i'r afael â'r bwch gwybodaeth o ran gallu yn y Gymraeg gyda gwiriadau hyfforddiant lefel 1 a gwiriadau ôl-weithredol ar staff presennol. (gweler y tabl)

2019	12 Mawrth	6 Mehefin	13 Awst	27 Medi
Gwag	609	445	493	442
Lefel 0	3299	3240	3142	3218
Lefel 1	2228	2419	2485	2520

Meysydd Posibl i'w Gwella

Mae'r Garfan Datblygu Pobl yn gweithio gyda darparwr RCTSource i asesu'r cyfleoedd i ddatblygu safle cyfrwng Cymraeg. Gyda throsiant staff, mae'r siaradwyr Cymraeg wedi symud i swyddi gwahanol yn yr adran Adnoddau Dynol sydd wedi cael effaith. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu.

Gwasanaethau i Blant

Mae Gwasanaethau i Blant yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae pob aelod o staff yn gwybod am y gofynion o ran y Gymraeg a sut bydd hyn yn effeithio ar ei faes gwasanaeth. Mae gwasanaethau rheng flaen, sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau, yn gwneud cynnig gweithredol i gyfathrebu yn Gymraeg ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau o'r fath yn ôl yr angen. Mae defnyddwyr gwasanaethau sy'n dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu nodi ar system WICCIS.

Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant fydd yn eu galluogi i ddysgu Cymraeg. Mae gwybodaeth wedi cael ei rhoi i reolwyr a staff mewn cyfarfodydd ac maen nhw wedi ymgymryd â modiwlau e-ddysgu mewn perthynas â'r Gymraeg. Caiff unrhyw ddiweddariadau eu rhoi i'r staff mewn cyfarfodydd carfan.

Mae'r holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Parhau i bwysleisio'r neges ac annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg.

Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r holl ddogfennau a gwasanaethau ar gael yn ddwyieithog, gan gynnwys yr holl ohebiaeth a chyhoeddiadau. Mae gan y Gwasanaeth hefyd nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n gallu hwyluso trafodaethau wyneb yn wyneb, galwadau ffôn a chyfarfodydd. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi derbyn ei gais cynllunio Cymraeg cyntaf. Cafodd y cais yma ei brosesu a'i benderfynu yn Gymraeg ac o fewn yr un amserlenni ag unrhyw gais arall wedi'i gyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg (hynny yw, doedd dim oedi wrth gyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg).

Mae'r gwasanaeth wedi gweithio ochr yn ochr â'r Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod yr holl dudalennau gwe a dolenni yn ddwyieithog.

Hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi derbyn unrhyw gwynion gan y cyhoedd nac ymchwiliadau ffurfiol gan y Comisiynydd. Deliwyd â materion sydd wedi'u codi ynglŷn â darparu gwasanaethau neu wybodaeth yn Gymraeg mewn ffordd gyflym ac effeithiol.

Mae natur y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth a'r systemau swyddfa gefn a ddefnyddir yn golygu bod cofnodi a dadansoddi'r defnydd o'r Gymraeg a cheisiadau am wasanaethau yn anodd. Mae hyn wedi cael ei fwydo yn ôl i'r Uned trwy Gais am Wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth wedi prynu a gosod pecyn o'r enw Linguaskin sy'n broses enfawr yn ein gallu i gynnig gwasanaeth cwbl Gymraeg i'n cwsmeriaid.

Mae'r gwasanaeth yn mynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle trwy annog staff i ddysgu a siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn, mae rhaid i staff sydd wedi cael dyrchafiad yn y gwasanaeth fynd ar gwrs Cymraeg.

Mae Uned Gwasanaethau Cymraeg yn mynd i bob cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a Datblygu y Cyngor a chaiff siaradwyr o'r cyhoedd wybod bod dewis gyda nhw wneud hynny yn Gymraeg.

Mae'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru, ac mae wedi cael ei chydabod yn Strategaeth Twristiaeth RhCT. Bydd ymwelwyr yn cael eu cyflwyno i'r iaith yn neunydd marchnata twristiaeth (megis y canllaw twristiaeth) mewn ffordd hwyl a chynhwysol. Mae busnesau twristiaeth hefyd yn cael eu hannog i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn bwynt gwerthu unigryw.

Byddwn ni'n gofyn am ddewis iaith pob unigolyn sy'n rhan o gyfarfodydd yr Hwb a Bwrdd Twristiaeth a bydd darpariaeth Gymraeg ar gael yn unol â hynny. Mae holl ohebiaeth ysgrifenedig yn ddwyieithog ac unrhyw negeseuon e-bost i grwpiau.

Mae deunydd twristiaeth yn cael ei lunio'n ddwyieithog yn unol â Safonau'r Gymraeg Llywodraeth Cymru ac mae unrhyw geisiadau am newid gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg yn cydymffurfio.

Mae'r Gwasanaeth Achlysuron hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn ddwyieithog ac mae holl negeseuon a hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yn ogystal â hynny, cydymffurfir ag argymhellion am newidiadau (e.e. cynnwys gwefannau).

Yn dilyn seminar diweddar gyda chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg, mae templed taenlen wedi cael ei greu sy'n cofnodi nifer y ceisiadau am wybodaeth o ran twristiaeth ac achlysuron sy'n dod i law yn Gymraeg. Bydd hyn yn ein caniatáu ni i ddechrau asesu'r raddfa mae trigolion/ymwelwyr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'r gwasanaethau am y tro cyntaf.

Bydd hyn yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd nesaf gan fod y Cyngor wedi cyflwyno cais llwyddiannus i gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2022, achlysur sydd â nod o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Bydd angen i'r gwasanaeth weithio'n agos gyda threfnwyr yr Eisteddfod i sicrhau bod mesurau ar waith i'w chynnal yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Yn rhan o sicrhau ei bod hi'n Eisteddfod llwyddiannus, bydd darpariaeth gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hasesu.

Ar hyn o bryd ac wrth baratoi at yr Eisteddfod, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi Menter Iaith ac yn parhau i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ac arbenigedd penodol am achlysuron a chyfraniad ariannol (Cyngor cyfan a marchnata) i gefnogi Parti Ponty, gŵyl celfyddydau a cherddoriaeth Cymreig sy'n cael ei chynnal ym Mhontypridd bob blwyddyn.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Mae angen gwella gwaith ar y cyd â sefydliadau Cymraeg gan fod cyfleoedd i nodi a datblygu prosiectau twristiaeth diwylliannol er budd ymwelwyr (PGU) a thrigolion (sgiliau).

Gwasanaethau i Oedolion

Mae Gwasanaethau i Oedolion yn parhau i ymateb yn effeithiol i ofynion Safonau'r Gymraeg a "Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol" Llywodraeth Cymru - gan weithio yn agos â chydweithwyr Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor a fforwm chwarterol "Mwy na Geiriau" Cwm Taf i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gofynion wedi'u nodi uchod.

Yn y Gwasanaethau i Oedolion, mae staff rheng flaen yn gwneud cynnig rhagweithiol i gyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna ddewis unigolyn. Yna, mae trefniadau yn cael eu gwneud i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sgwrsio a gweithio gyda'r unigolyn. Rydyn ni'n cofnodi dewis iaith pobl ar System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) sy'n llywio cyfathrebu yn y dyfodol. Rydyn ni'n gwirio dewisiadau iaith pan fo data craidd yn cael ei wirio. Chafodd Gwasanaethau i Oedolion mo cwynion ynglŷn â gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae pob gohebiaeth a deunydd ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a DEWIS, bellach ar gael yn ddwyieithog i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae pob aelod o staff yn gwybod am ofynion y Safonau a sut bydd hyn yn effeithio ar ei waith. Rydyn ni hefyd yn monitro ein holl ddarparwyr gwasanaeth allanol i sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â'r Safonau. Mae'r fframwaith monitro contractau'r Gwasanaethau i Oedolion yn monitro pob darparwr allanol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau – cafodd dim problemau eu nodi.

Ym mis Mawrth 2019, cynhaliodd Uned Gwasanaethau Cymraeg archwiliad o wasanaethau rheng flaen i fesur cydymffurfiaid y Cyngor yn erbyn dangosyddion cyflawniad allweddol wedi'u cyhoeddi gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. O safbwynt Gwasanaethau i Oedolion, cafodd dim pryderon arwyddocaol eu nodi. Mae dadansoddiad o'r canlyniadau isod:

Gohebiaeth

1. Ymateb i ohebiaeth trwy e-bost yn Gymraeg - wedi cydymffurfio'n llawn â'r safon briodol
2. Yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol (Amser/Cynnwys) – mae angen cynnal gwaith ychwanegol i gydymffurfio'n llawn â'r safon. Roedd oedi o 6 awr gwaith yn hwy na'r hyn a gafodd

ei gytuno sef 3 awr o dderbyn gohebiaeth Saesneg – cafodd staff eu hatgoffa fod angen blaenoriaethu cyfieithiadau fel nad oes oedi o ganlyniad i ddewis iaith.

3. Llofnodion negeseuon e-bost dwyieithog – mae angen cynnal gwaith ychwanegol i gydymffurfio'n llawn â'r safon. Roedd y Saesneg i'w gweld yn gyntaf yn yr ymateb – cafodd y staff eu hatgoffa am yr angen i sicrhau bod y Gymraeg i'w darllen yn gyntaf o safbwynt llofnodion ar negeseuon e-bost.

4. Datganiad parthed: Croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg - wedi cyflawni hyn i gydymffurfio'n llawn â'r safon briodol.

Achlysuron Ymgynghori

5. Deunydd hyrwyddo cyfarfodydd â'r cyhoedd yn croesawu defnyddio'r Gymraeg – mae angen cynnal gwaith ychwanegol i gydymffurfio'n llawn â'r safon. Doedd deunydd hyrwyddo'r ymgynghoriad ar Ganolfannau Oriau Dydd ddim wedi cynnwys cynnig rhagweithiol i ddinasyddion ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd – mae angen mynd i'r afael â hyn yn gorfforaethol

Meysydd Posibl i'w Gwella – dim byd wedi'i nodi

Y Gwasanaeth Cyfrifeg a'r Gwasanaeth Rheoli Cyflawniad

Y ddau wasanaeth:

- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a cheisio cyngor gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor ar sail barhaus;
- Rhoi prawf ar drefniadau gweithredol yn erbyn safonau perthnasol yn achlysurol;
- Cyhoeddi dogfennau statudol yn ddwyieithog; a
- Nifer digonol o swyddogion dwyieithog sy'n gallu cefnogi anghenion y gwasanaeth.

1. Safonau'r Gymraeg a cheisio cyngor

- Ceisio cyngor gan Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor yn nhermau gofynion dwyieithog o ran cyhoeddi dogfennau statudol (Datganiad o Gyfrifon ac Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor wedi'u llunio'n ddwyieithog).
- Rhoi canllawiau gweithredol ar waith i helpu staff (e.e. cronfa ganolog i gasglu dewis iaith cwsmeriaid).
- Heb dderbyn unrhyw gwynion gan y cyhoedd ynglŷn ag achosion o beidio â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
- Yn rhan o waith datblygu'r we, mae'r gwasanaeth wedi gweithio gydag adran TGCh ac Uned Gwasanaethau Cymraeg i sicrhau bod tudalennau gwe wedi'u diweddarau a'u bod nhw ar gael yn ddwyieithog e.e. pob tudalen dalu ar gael yn ddwyieithog.

2. Swyddogion dwyieithog

- Mae 7 swyddog (6 yn 2018) yn gallu sgwrsio yn Gymraeg (8% o weithlu'r gwasanaeth), mae un swyddog wedi cadarnhau bod modd iddo ddelio ag ymholiadau sy'n ymwneud â gwaith yn Gymraeg (ac mae bellach yn gwneud hyn lle bo'n addas);
- Dros y 12 mis diwethaf, mae'r 7 swyddog wedi cefnogi gofynion gwaith y gwasanaeth o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn ffordd addas.

Mae Hunanwerthusiad o'r Gwasanaeth a threfniadau asesu corfforaethol yn nodi'r lefel gydymffurfio ar draws y Cyngor. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei defnyddio'n rhan o lunio Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y Cyngor i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y broses yma yn parhau.

<p>Cynnydd meysydd 2018 i'w gwella</p> <p>Ystyried yr 'angen busnes' i unigolion nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg fanteisio ar gyfle i fynd i hyfforddiant Cymraeg.</p>	<p>Cynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella wedi'u nodi yn y Hunanwerthusiad o'r Gwasanaeth 2018.</p> <p>Mae hyn wedi cael ei gefnogi yn ystod y flwyddyn (mae aelod o'r garfan cefnogi partneriaethau wedi mynychu hyfforddiant).</p>
--	--

Meysydd Posibl i'w Gwella

Cafodd dim gwelliannau pellach eu nodi i'w rhoi ar waith yn 2020/21.

TGCh

Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i wasanaethau rheng flaen sy'n cefnogi darpariaeth Gymraeg yn y Cyngor, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn gyfarwydd â Mesur y Gymraeg ac yn cydymffurfio ag ef. Mae'n darparu'r cymorth canlynol –

- Troedynnau e-bost dwyieithog, gwas 'allan o'r swyddfa';
- Bwletinau Digidol a Rheoli Gwybodaeth dwyieithog;
- Rhoi negeseuon e-bost cyffredinol i bob aelod o staff, Aelodau ac ysgolion yn ddwyieithog;
- Gosod offer rhyngwyneb iaith Gymraeg drwy MS Office (Cysgeir) i holl staff y Cyngor.

Yn ogystal â hyn,

- Cynnig offer meddalwedd cyfieithu iaith Gymraeg (Cysill) y mae modd i staff eu defnyddio os oes angen;
- Cynnig cymorth Desg Wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg;
- Cynorthwyo Ysgolion Cyfrwng Cymraeg i ddarparu TGCh;
- Cefnogi prynu systemau a meddalwedd iaith Gymraeg;
- Darparu'r modd i fanteisio ar MS Office llawn trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Staff i fynychu cyrsiau Cymraeg;
- Meddalwedd Gymraeg ar gael trwy gyflwyno 365;

<http://inform/en/supportservices/translationandwelshservices/relateddocuments/3.icthelpatyourfingertips.pdf>

Mae Carfan Data a Systemau Gofal Cymdeithasol yn cefnogi staff gofal cymdeithasol rheng flaen i gyflawni eu rhwymedigaeth statudol i wneud y cynnig rhagweithiol o gyfathrebu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg trwy sicrhau bod yr holl ddogfennau WCCIS perthnasol yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol Gymraeg.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Parhau i weithio gyda gwasanaethau i gefnogi darpariaeth Gymraeg trwy ddefnyddio technoleg.
- Parhau i annog staff i gymryd rhan yng nghyfleoedd datblygu personol.

Eiddo'r Cyngor

Mae'r gwasanaeth yn effro i'w rwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg. Rydyn ni'n eglur o ran yr agweddau o'n gwasanaeth mae angen eu cyfieithu a sicrhau bod pob dull cyfathrebu yn bodloni'r safon gofynnol. Er enghraifft, rydyn ni'n sicrhau'n rheolaidd fod cylchlythyron prosiectau yn cael eu cyfieithu pan fyddan nhw ar gael i'r gymuned ehangach. Mae'r Garfan Dylunio wedi adolygu ei

themped dylunio safonol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ac mae gwasanaeth cyfieithu yn cael ei gynnig yn rhan o drefniadau cadw ystafell.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg fel ateb y ffôn, ymatebion 'allan o'r swyddfa' a throednodiadau negeseuon e-bost/gohebiaeth sy'n cynnig cyfathrebu trwy'r Gymraeg.

Mae staff wedi cael eu hasesu ac maen nhw wedi cael hyfforddiant Cymraeg lefel 1. Mae holl staff yn cael eu hatgoffa'n aml trwy e-bost am eu rhwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg. Mae canran y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu ers y Hunanwerthusiad blaenorol o'r Gwasanaeth.

Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn eitem safonol ar agenda cyfarfodydd Carfan Reoli Adrannol y Gwasanaeth ac mae gofynion Cymraeg yn cael eu nodi mewn negeseuon e-bost i staff a thrwy gyfarfodydd carfan yn ôl yr angen.

Mae arwyddion y gweithle ac arwyddion allanol wedi cael eu gwirio a'r gwella gan y gwasanaeth. Mae derbynfydd, o dan gyfrifoldeb Eiddo'r Cyngor, wedi cael eu gwella i gydymffurfio â'r Safon.

Mae'r gweithle (Tŷ Trevithick) yn cynnal achlysuron Cymraeg fel diwrnodau Shwmae.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Cyfieithu ffurflenni safonol sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd i arbed amser pan fydd angen anfon ffurflenni dwyieithog.

Cynnal a Chadw/Rheoli Cerbydau

Mae Safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried wrth recriwtio ac mae'r gofyniad wedi cael ei ychwanegu at y fersiwn ddiweddaraf o'n disgrifiadau swyddi.

Mae Safonau'r Gymraeg bellach yn bwnc parhaol ar agendâu cyfarfodydd cyson y garfan.

Mae'r ffurflen gorchymyn 3 blynedd wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg ar gyfer defnyddwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Er nad ydyn ni'n delio'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn aml, byddai unrhyw ohebiaeth fyddai'n dod i law yn cael ei hateb yn Gymraeg.

Yn nhermau effaith bosibl arall ar y cyhoedd, byddai hon yn dod yn anuniongyrchol – megis gwaith graffig dwyieithog ar gerbydau a chyfarwyddiadau dwyieithog mewn cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. (Dyma nodwedd unigryw). Mae holl arwyddion mewnol ac allanol cerbydau (lle mae deddfwriaeth yn caniatáu hynny) yn ddwyieithog. Pe bai angen dogfennau ar gyfer y cyhoedd, byddai'r rheiny'n ddwyieithog.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Dim meysydd i'w gwella wedi'u nodi

Cynnal a Chadw/Rheoli'r Priffyrdd

Mae'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Priffyrdd yn parhau i fabwysiadu Safonau'r Gymraeg ac felly wedi ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn ymgyrch recriwtio diweddar mae chwe aelod o staff o fewn y Gwasanaeth sydd â sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig rhesymol, ac mae nifer o staff sy'n dilyn cyrsiau i ddysgu'r iaith ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, o'r 3 phrentis a gyflogwyd ym mis Medi, mae pob un yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriadau â thrigolion neu pan fydd llythyrau cyffredinol yn cael eu hanfon, darperir pob gohebiaeth yn ddwyieithog h.y. trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ystod gwaith cynnal a chadw arferol o ran adnewyddu arwyddion neu enwau strydoedd, mae pob arwydd newydd a gaiff ei osod yn ddwyieithog. Mae enwau strydoedd newydd bellach yn Gymraeg yn unig, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhellach.

Fel rhan o'r gwaith i liniaru problemau os bydd cwsmeriaid yn dymuno trafod neu dalu dirwyon parcio yn Gymraeg, rydym wedi sefydlu cyswllt uniongyrchol â chanolfan alwadau'r Cyngor.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Annog staff ymhellach i ddilyn cyrsiau Gymraeg.

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Dydy'r Gwasanaethau Cyfreithiol ddim yn wasanaeth rheng flaen a phrin iawn yw ei gyswllt â thrigolion. Serch hynny, mae'n eglur o ran yr angen i barhau â bodloni gofynion cyhoeddi mewnol ac allanol mewn perthynas â'r Gymraeg e.e. dogfennau allanol a chyhoeddiadau mewnol.

Mae hysbysiadau/hysbysebion cyfreithiol ar gyfer cau ffyrdd/swyddi gwag Aelodau Cyfetholedig yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, yn ogystal â phresenoldeb Aelodau.

Rydyn ni'n ffodus bod gyda ni nifer o siaradwyr Gymraeg rhugl a chymwys yn y gwasanaeth gan gynnwys cyfreithwyr sy'n gallu rhoi cyngor ac eirioli trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys yn y llys, os bydd angen.

Mae datganiadau'r Swyddog Canlyniadau yn cael eu gwneud yn unol â safonau gofynnol Comisiynydd y Gymraeg. Rydyn ni wedi defnyddio cydweithwyr y gwasanaeth ac Uned Gwasanaethau Gymraeg i gefnogi hyn. Rydyn ni hefyd wedi adolygu pob ffurflen anstatudol i fodloni'r safonau gofynnol.

Trwy ddatblygu ein perthynas ag Uned Gwasanaethau Gymraeg, rydyn ni'n sicrhau bod y bobl hynny sy'n dymuno defnyddio eu hawl i gyflawni eu busnes yn Gymraeg yn derbyn yr un lefel o wasanaeth â'r rheiny sy'n siarad Saesneg. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fodloni'r gofynion wedi'u nodi yn Safonau'r Gymraeg.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi'r Cyngor i lynu wrth Safonau'r Gymraeg a chynorthwyo swyddogion i ddelio â chwynion sy'n dod i law gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Edrych ar wella lefel y Gymraeg sy'n cael ei siarad gan swyddogion yr adran gyfreithiol.

Hamdden, Parciau a Phroffedigaethau

Ehangu darpariaeth gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg i ail ganolfan hamdden, a hynny mewn partneriaeth â'r Urdd.

Cyfrannu'n llwyddiannus at ymgyrch Shwmae ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae staff wedi mynychu hyfforddiant lefel 1.

Mae Gwasanaethau Hamdden, gan gynnwys Datblygu Chwaraeon, wedi bod yn destun archwiliad yr Uned Gwasanaethau Gymraeg. Nododd yr archwiliad sut mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â

Safonau'r Gymraeg. Llywiodd yr asesiad yma gynllun gweithredu ar gyfer datblygu pellach. Mae'r cynllun bellach yn cael ei roi ar waith.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg ac yn ymgynghori ar holl ddeunydd cyfathrebu marchnata a gweithredol gan gynnwys ein tendrau.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Cynnal hyfforddiant pellach a chadw cofnodion o hyfforddiant.
- Archwilio i allbwn gwybodaeth reoli o Source gydag adran Adnoddau Dynol i lywio anghenion a chynlluniau hyfforddi'r gwasanaeth.
- Dosbarthu'r rhestr diweddaraf o sgiliau Cymraeg staff y gwasanaeth.

Gwasanaethau Pensiynau, Caffael (Ynni) a Thrafodion

Refeniw a Budd-daliadau:

- Adolygiad llawn o dudalennau gwe a gwasanaethau/systemau ar-lein i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â phrotocolau allweddol wedi'u nodi gan y Safonau.
- Diweddarau ffeiliau achos gyda dangosydd lle mae dewis iaith wedi'i nodi ar gyfer cyswllt cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu, er bod galw yn gyfyngedig.
- Eitem agenda safonol yng nghyfarfodydd y Garfan Reoli.
- Cwyn wedi dod i law ynglŷn â darpariaeth Gymraeg.

Caffael:

- Mae gan y Gwasanaethau Caffael berthynas waith gadarnhaol gyda Charfan Safonau'r Gymraeg a'r Gwasanaeth Cyfieithu.
- Cynnwys gofynion yn y broses gaffael ar bob lefel ac mae mentrau uwch i hyrwyddo a gwella Safonau'r Gymraeg yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu cefnogi'n weithredol trwy hyrwyddo'r 'Canllaw Partneriaid Comisiynu'.
- Rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag Uned Gwasanaethau Cymraeg i lunio llawlyfr i gcontractwyr ei ddefnyddio. Mae'r llawlyfr yma wedi cael ei lunio i helpu a chefnogi staff y Cyngor a Chontractwyr i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol sy'n gofyn am arwyddion dwyieithog.

Meysydd Posibl i'w Gwella

- Dydy ffurflenni a systemau ar-lein wedi'u darparu gan gyflenwyr trydydd partner ddim bob amser wedi'u llunio gan ystyried Safonau'r Gymraeg. Gall y rhain fod yn anodd/heriol i'w newid a'u cynnal.
- Parhau i nodi a chofnodi dewis iaith cwsmeriaid.
- Pensiynau – adeiladu ar y gwaith da o greu gwefan ddwyieithog. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ei gynnig hunan-wasanaeth dwyieithog ar-lein i Aelodau.

Gofal y Strydoedd a Gwasanaethau Gwastraff

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Mae llythyrau, taflenni a phosteri safonol, yn ogystal ag arwyddion, yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar ein gwefan yn ddwyieithog ac ers y cyfarfod diwethaf, rydyn ni wedi edrych ar ein tudalennau gwe i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei rhoi.

Hyd yma, dydyn ni ddim wedi cael unrhyw gwynion gan y Comisiynydd a dim ond un ymholiad unigol rydyn ni wedi gorfod delio â fe drwy gyfrwng y Gymraeg ers yr asesiad diwethaf. Cynorthwydd cydweithwyr o'r gwasanaeth Gofal i Gwsmeriaid ni yn ystod y broses yma.

Rydyn ni'n hysbysu staff newydd o'n gofynion gwasanaeth o dan Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod ymsefydlu. Ers yr asesiad diwethaf, rydyn ni wedi parhau i nodi ac annog staff sy'n awyddus i gael hyfforddiant gloywi neu sydd am ddechrau cwrs Cymraeg llafar i ddechreuwyr. Rydyn ni wedi diweddarau ein ffeiliau hyfforddiant gan nodi pa aelodau o staff yn y gwasanaeth sy'n rhugl ac yn rhannol rugl wrth sgwrsio yn Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ac yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn gyfarwydd â pholisïau'r Cyngor. Er mwyn sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau, mae dulliau amgen o gyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried, er enghraifft, hyfforddiant bore bach ar gyfer gweithredwyr gwastraff a glanhau mewn depos.

Meysydd Posibl i'w Gwella

Cynnig hyfforddiant Cymraeg i staff sy'n delio ag aelodau o'r cyhoedd bob dydd.

Cludiant

Mae'r Gwasanaeth Cludiant yn sicrhau bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau diweddaraf. Dydy'r iaith Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae llythyrau safonol ar gyfer cynulleidfaoedd eang yn ddwyieithog ac mae amserlenni bysys wrth ochr y ffordd, yn ogystal â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r Gwasanaeth ar wefan y Cyngor, yn Gymraeg a Saesneg.

Mae pob rhiant yn cael cyfle i gyfathrebu â'r gwasanaeth yn Gymraeg yn rhan o'r broses derbyn ac mae cofnodion yn cael eu cadw. Nid oes unrhyw un wedi gofyn am y gwasanaeth yma hyd yma. Gadawodd siaradwr Cymraeg rhugl y gwasanaeth yn ystod 2019, gan adael dau aelod o staff gyda gwybodaeth ddigonol o Gymraeg llafar ac ysgrifenedig. Mae aelod arall o staff yn parhau i ddysgu'r iaith. Mynychodd un aelod o staff y cwrs Cymraeg un diwrnod hanfodol. Yn ystod 2019, dderbyniodd y Gwasanaeth ddim ceisiadau am ohebiaeth na galwad ffôn gan drigolion oedd yn dymuno sgwrsio yn Gymraeg. Eto, doedd dim cwynion am ddefnydd y Gwasanaeth o'r Gymraeg yn ystod y cyfnod yma.

Mae gostyngiad bach yn nifer y dysgwyr sy'n cael eu cludo i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwy iaith, o 3,676 i 3,577. Mae hyn yn cynrychioli 32.2% o'r cyfanswm. Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mis Mehefin 2016 wedi ystyried bod y Polisi, Gwybodaeth a Threfniadau Teithio gan Ddysgwyr yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y gymuned Gymraeg, ar yr amod bod cludiant ysgol yn cael ei ddarparu'n gyson ac yn deg, a bod anghysondebau yn y ddarpariaeth yn cael eu lliniaru. Arweiniodd hyn at ddileu nifer o anghysondebau o'r fath o fis Medi 2018, ond does dim rhai wedi bod ers hynny.

Cyhoeddodd y Cyngor ganlyniadau ei Arolwg Ymgysylltu â Thrigolion yn 2018. Mae'r arolwg yn cael ei gynnal bob dwy flynedd. Roedd y rheiny a ymatebodd i'r adran trafndiaeth gyhoeddus yn gadarnhaol ar y cyfan a chynyddodd darpariaeth gwybodaeth trafndiaeth gyhoeddus i 80% (o 72%).

Meysydd Posibl i'w Gwella:

Annog rhagor o staff i ddysgu Cymraeg.